**Cyngor Cymuned Llangwyryfon**

Cyfarfod Nos Fercher Medi 16 yn Festri Tabor am 8 o'r gloch

Presennol: Islwyn Jones (Cadeirydd), Peter Tandy, Dai Jones, Huw Griffith, Lyn Davies, Morgan Morgans a'r clerc.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1. Gwefan y Cyngor. Derbyniwyd dyfynbrys cwmni Gwerin ac adroddwyd fod y gwaith ar y gweill, a'r sgerbwd wedi ei baratoi. Gellir dod o hyd iddo ar www.cyngorcymunedllangwyryfon.org.uk. Gofynnodd y clerc am fanylion cyswllt y cynghorwyr i'w rhoi ar y wefan, ond mynegodd y cyngor nad oeddynt eisiau rhoi dim byd mwy na'u henwau yn unig ar y wefan.
2. Mobile Phone Mast. Daeth hysbysiad wrth y Cyngor Sir hefyd fod cais cynllunio wedi ei gyflwyno a gofyn am sylwadau. Danfonwyd ateb yn cynnwys yr un sylwadau ag a anfonwyd at y cwmni sy'n cyflwyno'r cais.
3. Baw cŵn. Bu'r Dog Warden o gwmpas ac yn barod i roi arwyddion i fyny, a gan y byddant o fewn ardal rheoli cyflymdra fe fyddai modd hefyd i roi dirwy i berchnogion cŵn sydd i'w gweld yn baeddu. Cost yr arwyddion fydd £20 am bedwar a £30 am chwech. Mae cael biniau i ddal y baw cŵn yn dod o dan yr Adran Priffyrdd a nhw fyddai'n eu gwagio. Penderfynwyd archebu chwech o arwyddion am £30.

Gohebiaeth

1. Gwahoddiad i weithdy Hyfforddiant ar Gynllunio - Medi 7fed. Y dyddiad wedi mynd heibio.
2. Gwybodaeth am y Materion i'w Trafod yng Nghyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ym Mhafiliwn Bont - Hydref 3ydd. Dim un o'r Cynghorwyr yn debyg o fynychu'r cyfarfod.
3. Ymgynghoriad ynglŷn â llwybrau teithio llesol i gerddwyr a seiclwyr mewn ardaloedd adeiledig. Ddim yn berthnasol i'r ardal hon.
4. Gwybodaeth am gyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu Awst 12fed a Medi 9fed. Derbyniwyd.
5. Ymgynghoriad ynglŷn â Heneiddio'n Dda yng Ngheredigion. Gan fod yr holiadur i'w ddychwelyd erbyn Medi 18, penderfynwyd nad oedd modd rhoi'r sylw dyladwy i'r fath ddogfen gynhwysfawr yn yr amser a ganiatawyd.
6. Gwasanaeth clirio eira. Derbyniwyd fel gwybodaeth.
7. Melin Wynt Llety'r Bugail. Cynlluniau diwygiedig. Dim sylwadau pellach i'w danfon ymlaen.
8. Cais am Felin Wynt yn Talwrn Coch. Astudiwyd y cynlluniau ac ni

ddatganwyd unrhyw wrthwynebiad.

9. Cyhoeddiadau a dderbyniwyd: Bwletin ailgylchu; Chwarae dros Gymru; Clerks and Councils Direct.

10. Hysbysiad am Gyfarfod Agored i drafod prynu diffibriliwr, i'w gynnal ar 24 Medi yn Neuadd Santes Ursula am 7.30. Derbyniwyd fel gwybodaeth.

11. Ymgynghoriad Cynllun Strategol Cydraddoldeb. Rhoddwyd braslun o gynnwys y ddogfen ac yna gofynnwyd i'r clerc gwblhau llanw'r holiadur ag eithrio'r adran gyntaf, am nad yw'n berthnasol i grŵp fel Cyngor.

Materion ariannol.

**a.** Derbyniwyd cais am gefnogaeth ariannol oddi wrth Shelter Cymru a'r Urdd. Cytunwyd i'w cadw mewn cof erbyn daw'r amser i ddosbarthu rhoddion.
**b.** Nodyn wrth fanc Barclays yn Aberaeron ei fod yn newid ei oriau agor. Derbyniwyd er gwybodaeth.

**c.** Darparwyd llythyr i'r banc yn gofyn iddynt newid y cyfeiriad lle maent yn anfon cyfriflen.
**ch.** E-bost wrth yr archwilwyr allanol BDO yn dweud nad oedd y ffurflen ariannol wedi ei llanw'n hollol gywir. Ar ôl siarad â nhw, nid oes angen ailgyflwyno ffurflen eleni. Derbyniwyd y ffurflen yn ôl oddi wrthynt a thrafodwyd eu sylwadau a gwneud y newidiadau angenrheidiol, gan nodi'r angen am roi sylw arbennig i'r pwyntiau hynny wrth lenwi ffurflen y flwyddyn nesaf. Awgrymwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r archwiliwr mewnol i'w hysbysu am sylwadau BDO.
Cytunwyd i arddangos yr Hysbysiad swyddogol fod yr archwiliad ariannol wedi ei gwblhau ar hysbysfwrdd y Neuadd.

Awdurdodwyd talu bill BDO am £210.

**d.** Awdurdodwyd talu Bill y Cyngor Sir am oleuadau stryd dros nos - £40 . 72.
**dd.** Cyfriflen ddiweddaraf o'r banc yn dangos cyfanswm o £2639 . 18.

Unrhyw Fater Arall

Adroddwyd bod y Clwb Garddio wedi tynnu sylw at y ffaith fod Japanese Knotweed yn tyfu yn yr hen fynwent. Trafodwyd dulliau o gael gwared ohono ond heb bennu cyfrifoldeb pwy fyddai gwneud hynny.